ATODLEN 5

TRAFODIADAU EIDDO PRESWYL CYFRADDAU UWCH

**RHAN 5**

DARPARIAETHAU ATODOL

*Setliadau ac ymddiriedolaethau noeth*

28 (1) Mae is-baragraff (3) yn gymwys—

(a) pan fo person yn fuddiolwr o dan setliad,

(b) pan fo prif fuddiant mewn annedd yn ffurfio rhan o eiddo’r ymddiriedolaeth, ac

(c) pan fo gan fuddiolwr, o dan delerau’r setliad, hawl i—

(i) meddiannu’r annedd am oes, neu

(ii) incwm a enillir mewn cysylltiad â’r annedd.

(2) Mae is-baragraff (3) hefyd yn gymwys—

(a) pan fo person yn fuddiolwr o dan ymddiriedolaeth noeth (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 2(1) a 2 o Atodlen 8), a

(b) pan fo cyfnod o flynyddoedd absoliwt mewn annedd yn ffurfio rhan o eiddo’r ymddiriedolaeth.

(3) Pan fo’r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) mae’r buddiolwr i’w drin at ddibenion yr Atodlen hon fel pe bai’n dal y buddiant yn yr annedd, a

(b) os yw ymddiriedolwr y setliad neu’r ymddiriedolaeth noeth yn gwaredu’r buddiant, mae’r buddiolwr i’w drin at ddibenion yr Atodlen hon fel pe bai wedi ei waredu.